

220722 – Ymateb i ymholiadau o sesiwn #1 Gwerthuso'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP)

1. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gynnal ymgyrch gyffredinol ymysg y cyhoedd i gynyddu dealltwriaeth am newid yn yr hinsawdd a sero net. Byddai hyn yn wirioneddol helpu'r sector tai gydag ôl-osod / SATC 2023.

Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu darn o waith. Anfonaf adborth am fanylion y cynllun i CHC.

2. Sut aethoch chi ati i addysgu tenantiaid am ddefnyddio'r systemau?

Mae hysbysu a chefnogi tenantiaid yng nghyswllt gwaith ôl-osod a systemau newydd yn hollbwysig ond mae'n amrywio ar bob cynllun ORP. Mae dulliau landlordiaid yn amrywio yn ôl math o gynllun, y math o fesurau a osodir a'u dull cyffredinol. Mae rhai yn canfod fod cyfathrebu o bell yn well gan rai tenantiaid, tra bod eraill yn dibynnu ar staff lleol mwy uniongyrchol i roi cymorth.

Mae 'Cymuned Ymarfer' a gefnogir gan CHC a Cynnal Cymru sy'n cwrdd i archwilio effeithlonrwydd gwahanol ddulliau gweithredu ac mae'n edrych ar argymhellion prosiect Gwyddor Gymdeithasol ABC.

3. A oes safon gyffredinol ar gyfer mesur llwyddiant ar dargedau sero net? Y nifer o osodiadau? Graddiad EPC? kWh?

Mae'r dull ar gyfer mesur perfformiad cartrefi presennol yn faes o waith sy'n esblygu.

Yn nrafft gynigion SATC23 ein disgwyliad yw y bydd pob landlord cymdeithasol yn asesu eu stoc eu hunain ac yn cynghori Llywodraeth Cymru am eu cynllun penodol i ddatgarboneiddio cartrefi. Caiff llwyddiant ei fesur yn erbyn y cynlluniau hyn.

Yn nhermau'r metrigau eu hunain yn nrafft SATC23 cynghorwyd Llywodraeth Cymru i gadw gyda'r dulliau traddodiadol a ddefnyddir i asesu perfformiad ynni tai – model SAP ac yn neilltuol EER (Bandiau SAP) ac EIR a gaiff eu dangos ar dystysgrifau EPC.

Mae canllawiau SATC23 hefyd yn targedu 'Paramedr Colli Gwres' i sicrhau fod cartrefi yn addas ar gyfer gwres wedi ei ddatgarboneiddio. Mae hyn yn cefnogi llwybr tuag at ddatgarboneiddio gwres a dŵr poeth.

Rydym wedi cadw at fodel a dull SAP oherwydd, er ein bod yn cydnabod fod ganddo gyfyngiadau, caiff ei ddeall yn dda.

Fodd bynnag, mae dulliau eraill yn cael eu datblygu a gallant ategu defnydd SAP o fewn SATC. Er enghraifft, mae consortia Braenaru Tir wedi datblygu dull 'Llwybr i Sero' sydd, er yn seiliedig ar foddelu tebyg i SAP, hefyd yn cynnwys datgarboneiddio

gridiau yn y dyfodol. Mae hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn cael y lefelau buddsoddi mewn datgarboneiddio cartrefi yn gywir.

4. Yn y pen draw, nid yw gostyngiad o 52% mewn allyriadau carbon yn dod unrhyw le'n agos at ofynion datgarboneiddio a sero net. Ni fydd cadw boeleri nwy yn opsiwn, nid wyf yn deall y rhesymeg am y treialon hyn.

Cytuno – ni fydd hybridau ohonynt eu hunain yn datrys y broblem datgarboneiddio ac mae pryderon am barhau i ddibynnu ar danwyddau ffosil a chymhlethdod y systemau hyn.

Mae ganddynt fanteision bod yn ddull cymharol syml i'w osod i ostwng allyriadau carbon heb gynyddu biliau tanwydd yn arbennig mewn tai hŷn perchen-breswlydd. Agwedd Llywodraeth Cymru at ddatgarboneiddio cartrefi cymdeithasol yw bod y landlord yn cymryd dull stoc gyfan. Yn yr ystyr honno, gall gostyngiad o 50% mewn allyriadau carbon mewn rhai cartrefi fod yn rhan ddefnyddiol o ddatrysiad ehangach. Mae pob g o garbon na chaiff ei ollwng yn un nad yw'n rhaid i ni roi cyfrif amdano rywle arall!

5. Bydd y SAP newydd ar gyfer EPS yn cosbi defnyddio trydan ar gyfer gwres felly mae'n debygol o golli bwyntiau EPC am bwmp gwres yn hytrach na boeler.

Ydi. Mae SAP 10 yn creu heriau am gyflawni pwyntiau SAP a Bandiau EPC. Mae Llywodraeth Cymru yn deall y gall ymddangos fod cartrefi'n symud ar i nôl yn nhermau band EPC. Y peth pwysig yr hoffem i landlordiaid ei wneud yw datblygu cynllun tymor canol ar gyfer pob annedd i ymateb i gost tanwydd, allyriadau carbon a gwynwch newid yn yr hinsawdd. O fewn y cynllun hwnnw, ar adegau, gall ymddangos fod newidiadau i fethodolegau SAP yn gwneud i berfformiad anheddau ymddangos yn waeth, a chaiff hynny ei dderbyn. Nid yw newidiadau i SAP o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru.

6. Os ydych chi'n bwriadu defnyddio holltiau awyru mewn cynlluniau ôl-osod dwfn yn sir Gaerfyrddin yn y dyfodol, a fyddwch yn cynnal modelu hygrothermol i sicrhau nad yw cronni gwlybanaeth yn dod yn broblem gyda sgil-efeithiau ar IAQ?

Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i ddylunio awyru wrth wneud gwelliannau i insiwleiddiad ac aerglosrwydd anheddau presennol. Wrth fanylu gwaith, disgwyliwn i landlordiaid ddilyn PAS2035 sy'n nodi dull dylunio seiliedig ar risg wrth ddelio gydag adeiladau hŷn.

Bydd y dewis p'un ai i ddefnyddio safon awyru naturiol a nodir yn y rheoliadau Adeiladau neu ddefnyddio system 'Adfer Gwres gydag Awyriant Mecanyddol' (MVHR) yn dibynnu ar ddewis landlord a ffactorau risg neilltuol – yn cynnwys bregusrwydd preswylwyr – sy'n gysylltiedig gyda'r adeilad hwnnw. Felly, er enghraifft, mewn annedd hŷn gallai system MVHR fod yn fwy addas nag mewn cartrefi 'anghenion cyffredinol' mwy newydd.